Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014/2015

Y CYNGHORYDD: GERAINT LLOYD-WILLIAMS

WARD: DINBYCH UCHAF / HENLLAN

GRŴP: LLAFUR

***(Cynhyrchwyd yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011)***

*Annwyl Breswylydd*

*Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i chi am rai o'r cyfarfodydd / materion yr wyf wedi ymdrin â nhw ar eich rhan ac fel aelod o Gyngor Sir Ddinbych yn ystod blwyddyn (Cyngor) 2014/15 a oedd yn rhedeg o fis Mai 2014 i Fai 2015.*

## Gweithgareddau Aelod Lleol

Yn ystod y flwyddyn cyngor diwethaf, rwyf wedi cynorthwyo llawer o breswylwyr o fewn fy ward ac wedi cyfeirio eraill naill ai at gynghorydd neu adran briodol y cyngor. Mae hyn wedi amrywio o faterion parcio, lleithder difrifol o fewn tai cyngor, i gymdogion oedd yn achosi problemau a phryderon cynllunio. Yn ddiweddar rwyf wedi cael llawer o gwynion ynghylch torri glaswellt, roedd hyn oherwydd rhai problemau cychwynnol gyda chontractwr tirwedd newydd, ond mae’n ymddangos bod yr holl bryderon wedi cael eu datrys erbyn hyn. Byddaf yn parhau i fod wrth law, pryd bynnag y bo modd, i holl drigolion Henllan a Dinbych Uchaf, er mwyn ymdrin â'u holl bryderon a materion a gyfyd.

## Prosiectau Mawr

Yn dilyn cais llwyddiannus Cyngor Sir Ddinbych i gael £1.1 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno prosiect effeithlonrwydd ynni yn ardal Dinbych Uchaf a Henllan. Mae'r prosiect yn bennaf i inswleiddio waliau allanol 108 eiddo yn Ninbych Uchaf. Bydd y rhain ar Ffordd y Ffair (gyferbyn Caledfryn), Lôn Llewelyn, Myddleton Avenue a Maes Glas Avenue. Dewiswyd y tai ar feini prawf ystadegol ac hefyd oherwydd eu waliau solet neu eu waliau ceudod cul; gan wneud inswleiddio waliau ceudod yn amhriodol.

Fel y cynghorydd sy'n monitro hamdden, sy’n rhan o fy rôl craffu perfformiad, rwyf yn falch iawn bod ein hawdurdod yn enghraifft brin o un sydd wedi parhau i fuddsoddi a datblygu ein cyfleusterau hamdden ledled y sir. Yn lleol mae uwchraddio’r wyneb maes chwarae pob tywydd 4G yng nghanolfan hamdden, Dinbych, yn profi'n boblogaidd iawn gyda chlybiau lleol, yn ogystal â’r estyniad arfaethedig i'r ystafell hamdden, a fydd bron yn ei dyblu o ran maint.

## Swyddi Cyngor / Aelodaeth Pwyllgorau a ddaliwyd (Mai 2014 - Mai 2015)

## Aelod o'r pwyllgorau canlynol:

- Cyngor Sir
- Pwyllgor Craffu Perfformiad
- Pwllgor Iechyd a Diogelwch

**Bûm hefyd yn aelod o, ac yn cyfrannu at waith y canlynol:**

**Cyrff Llywodraethol Ysgolion a Phartneriaethau:**

- Llywodraethwr cymunedol ar Ysgol y Santes Ffraid yn cynrychioli Cyngor Tref Dinbych.

**Cyrff Allanol:**

- Pwyllgor Rheoli Partneriaeth Gymunedol Dinbych Uchaf

| **Ystadegau Presenoldeb ar gyfer Cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cyfanswm presenoldeb disgwyliedig: | 19 | |
| Yn bresennol yn ôl y disgwyl: | 14 | 74% |

**Digwyddiadau Dysgu a Datblygu a fynychwyd yn ystod 2014/15:**

1. Gweithdy Cyllideb – 09/07/2014
2. Gweithdy Cyllideb – 14/07/2014
3. Gweithdy Cyllideb – 02/09/2014
4. Hyforddiant – diogelu plant ac oedolion bregus

**Blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn i Ddod:**

Gyda'r dasg anochel o gydbwyso'r fantolen o fewn y sir, bydd yn rhaid gwneud toriadau pellach, ond byddaf yn sicrhau na fydd yr hyn rwyf yn pleidleisio drostynt yn effeithio ar y bobl fregus o fewn fy ward a Sir Ddinbych. Byddaf yn parhau i graffu ar faterion hamdden a llyfrgelloedd fel rhan o fy rôl.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council



ANNUAL REPORT 2014/2015

COUNCILLOR: GERAINT LLOYD-WILLIAMS

WARD: DENBIGH UPPER / HENLLAN

GROUP: LABOUR

***(Produced in accordance with the requirements of The Local Government (Wales) Measure 2011)***

*Dear Resident*

*The purpose of this report is to keep you informed of some of the meetings / issues I have dealt with on your behalf and as a member of Denbighshire County Council during the 2014/15 municipal (Council) year which ran from May 2014 to May 2015.*

**Local Member Activities**

In this last municipal year, I have assisted many residents within my ward and guided others to either the appropriate councillor or council dept. This has varied and ranged from parking issues, severe damp within council houses to problem neighbours and planning concerns. Recently I've had many complaints regarding grass cutting, this was due to some early teething problems with a new landscape contractor, all concerns now seem to have been resolved. I will continue to be on hand, whenever possible, for all residents of Henllan and upper Denbigh, dealing with all their concerns and issues.

**Major Projects**

Following Denbighshire County Council's successful bid to get £1.1 million of Welsh Government funding so as to deliver an energy efficiency project in Upper Denbigh and the Henllan area. The project is primarily to install external wall insulation (EWI) to 108 properties in Upper Denbigh. These will be on Smithfield Road (opposite Caledfryn), Lôn Llewelyn, Myddleton Avenue and Maes Glas Avenue. The houses were selected based upon statistical criteria and also due to their solid wall or narrow cavity wall construction; making cavity wall insulation inappropriate.

As the councillor who monitors leisure, as part of my performance scrutiny role, I am really pleased in how our authority is a rarity, in that we continue to invest and develop our leisure facilities throughout the county. Locally the upgrade to a 4G surface to the Denbigh leisure centre all weather pitch is proving very popular with local clubs as is the pending extension to the leisure suite, which will almost double it in size.

**Council Positions / Committee Memberships Held (May 2014 – May 2015)**

**Member of the following committees:**

- County Council
- Performance Scrutiny Committee
- Health and Safety Committee

**I was also a member of, and contributed to the work of the following:**

**School Governing Bodies and Partnerships:**

- Community governor at St Brigid's school representing Denbigh Town Council.

**Outside Bodies:**

- Upper Denbigh Community Partnership, Management Committee

| Attendance Statistics for Formal Council Meetings | Count | Percentage |
|---|---|---|
| Total expected attendances: | 19 | |
| Present as expected: | 14 | 74% |

**Learning and Development events attended during 2014/15:**

1. Budget Workshop – 09/07/2014
2. Budget Workshop – 14/07/2014
3. Budget Workshop – 02/09/2014
4. Training - safeguarding vulnerable children and adults

**Priorities for the Year Ahead:**

With the inevitable task of balancing the books within the county, further cuts will have to be made but I will ensure that what I vote for will not affect the vulnerable within my ward and Denbighshire. I will continue to scrutinise both leisure and libraries as part of my role.